

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth
Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Caergybi)
a Chyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban),
Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau
Dros Dro) 2019

The A55 Trunk Road (Slip Roads
at Junction 2 (Holyhead
Interchange) & Junction 5 (Treban
Interchange), Anglesey)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2019

Gwnaed 2 Hydref 2019

Made 2 October 2019

Yn dod i rym 7 Hydref 2019

Coming into force 7 October 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Caergybi) a Chyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 7 Hydref 2019.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Slip Roads at Junction 2 (Holyhead Interchange) & Junction 5 (Treban Interchange), Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 7 October 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead Trunk Road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gloch ar 7 Hydref 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o ffyrdd ymadael a ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Caergybi) a Chyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), Ynys Môn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Hydref 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 7 October 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads of the trunk road at Junction 2 (Holyhead Interchange) and Junction 5 (Treban Interchange), Anglesey.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

2 October 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH
GYFFORDD 2 (CYFNEWIDFA CAERGYBI) A
CHYFFORDD 5 (CYFNEWIDFA TREBAN),
YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS
DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Caergybi) a Chyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Caergybi) a Chyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban). Disgwylir y bydd y gwaith sy'n effeithio ar Gyffordd 2 yn digwydd rhwng 7 a 14 Hydref 2019 a threfnwyd y bydd y gwaith wrth Gyffordd 5 yn digwydd rhwng 25 Tachwedd a 2 Rhagfyr 2019. Ni fydd ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y ddwy gyffordd ar gau ar yr un pryd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno gadael y gefnffordd wrth y naill gyffordd neu'r llall fydd parhau ar yr A55 at y gyffordd nesaf a dychwelyd ar y gerbyttffordd gyferbyn i adael yn y lleoliad a ddymunir.

Dylai traffig sy'n dymuno ymuno â'r gefnffordd wrth y naill gyffordd neu'r llall ymuno â'r gerbyttffordd gyferbyn, mynd at y gyffordd nesaf a dychwelyd tua'r cyfeiriad priodol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn dod i rym ar 7 Hydref 2019 ac y bydd yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (18:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 2 Rhagfyr 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A55 TRUNK ROAD (SLIP ROADS AT
JUNCTION 2 (HOLYHEAD INTERCHANGE) &
JUNCTION 5 (TREBAN INTERCHANGE),
ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 2 (Holyhead Interchange) and Junction 5 (Treban Interchange), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 2 (Holyhead Interchange) and Junction 5 (Treban Interchange). Works affecting Junction 2 are expected to take place between 7 and 14 October 2019 and works at Junction 5 are scheduled to be undertaken from 25 November – 2 December 2019. The eastbound and westbound slip roads at both junctions will not be closed simultaneously.

The alternative route for traffic wishing to leave the trunk road at either junction will be to continue on the A55 to the next junction and return on the opposite carriageway to exit at the desired location.

Traffic wishing to join the trunk road at either junction should join the opposite carriageway, continue to the next junction and return in the appropriate direction.

It is expected that the prohibition will come into force on 7 October 2019 and operate intermittently overnight (18:00 – 06:00 hours) until 2 December 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government